Polisi Ymgynghori

MAI 2021

Rheoli Fersiynau

Dyma Fersiwn 3 o Bolisi Ymgynghori Cymwysterau Cymru ac yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd yn 2020-21 cafodd ei gymeradwyo a'i gyhoeddi wedyn ym mis Mai 2021.

Rydym yn parhau i adolygu ein polisïau a chroesewir unrhyw adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Os oes gennych unrhyw adborth ar y polisi hwn, anfonwch eich sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org.

Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Rhagair

Yn y fersiwn ddiweddaraf hon o'n polisi, rydym yn nodi ein dull o ymgynghori. Rydym yn byw ac yn gweithio mewn cyfnod sy'n prysur newid ac mae hyn yn golygu bod sut a beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch, yn ogystal â sut rydym fel arall yn ymgysylltu neu'n cyfathrebu â rhanddeiliaid, wedi cynyddu mewn pwysigrwydd i ni fel sefydliad. Mae gwrando ar randdeiliaid a derbyn adborth yn bwysig iawn i ni ac wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithio.

Fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, ein rôl ni yw ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a diogelu buddiannau y dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hynny.

Mae ein gwerthoedd yn ganolog o ran gofyn i randdeiliaid am adborth:

- Cydweithredol – o ran ein ffordd o weithio
- Ystyriol – o ran ein dulliau gweithredu
- Cadarnhaol – o ran ein hagwedd
- Dysgu – o brofiad a chan eraill

Cyflwyniad

1. Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf"), mae'r datganiad hwn yn nodi o dan ba amgylchiadau y bwriadwn gynnal ymgynghoriadau parthed arfer ein swyddogaethau, a'r modd y bwriadwn wneud hynny.

2. Mae adran 47(3) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi datganiad o'n polisi yn unol ag ymgynghoriad. Byddwn yn parhau i adolygu datganiadau polisi a baratowyd o dan Adran 47 o'r Ddeddf, ac os ystyriwn ei bod yn briodol o ganlyniad i adolygiad, yn paratoi datganiadau diwygiedig.

Diffiniad o Ymgynghoriad

3. Mae gwrando ar bobl a gofyn am adborth yn bwysig i ni ac wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn cyfathrebu ac yn gweithio'n agos gyda ac yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid gan mai ein rôl ni yw hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a diogelu buddiannau dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hynny.

4. Gyda hyn mewn golwg, mae ein strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu yn amlinellu ein gweithgareddau corfforaethol ehangach, tra bod y polisi hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ymgynghoriadau ffurfiol. At ddibenion y polisi hwn, mae'r ymgynghoriad wedi'i ddiffinio'n glir ac ar wahân i ymgysylltu ehangach a gynhaliwyd gennym.

5. Drwy ymgynghori, rydym yn golygu'r broses o ofyn yn ffurfiol am farn rhanddeiliaid ar gwestiwn, cynnig, neu gyfres o opsiynau yr ydym wedi'u cyhoeddi, a lle rhagwelir y bydd maint y newid a/neu'r effaith yn sylweddol, yn newydd neu'n ddadleuol.

6. Yn hyn o beth, rydym yn gofyn am gymeradwyaeth gan Fwrdd Cymwysterau Cymru cyn i ni ymgynghori ac fel yr amlinellir yn y cynllun dirprwyo, ar y canlynol:
    - materion a fydd yn cael effaith sylweddol ar gymwysterau neu'r system gymwysterau; a
    - pholisi neu gynigion sy'n newydd, yn ddadleuol neu o arwyddocâd cenedlaethol penodol.

7. Fel arfer, mae ymgynghoriadau'n achlysuron pan fyddwn yn nodi ein cynigion yn ysgrifenedig ac yn cyhoeddi'r rhain ar ffurf dogfen ymgynghorol ac yn gwahodd y cyhoedd, rhanddeiliaid allanol, neu grŵp targed i roi adborth arnynt. Fel arfer, byddwn yn gofyn cyfres o gwestiynau am ein cynigion ac yn gwahodd ymatebion mewn ffordd strwythuredig.

8. Nid yw'r polisi hwn yn ymwneud ag adegau pan fyddwn yn ysgrifennu at un neu fwy o gyrff dyfarnu am gamau rheoleiddio ffurfiol a gymerwn o ran cydymffurfio.

Egwyddorion Cyffredinol

9. Rydym wedi ymrwymo i ymgynghoriad ystyrlon. Byddwn yn ymgynghori pan fyddwn am ofyn am adborth ar gynigion a phryd y gall yr adborth hwnnw lywio ein penderfyniadau mewn ffordd amserol ac ystyrlon, a chyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Yn hyn o beth, mae ymgynghoriadau'n rhan o'n proses gwneud penderfyniadau, a fydd yn ei dro yn llywio penderfyniadau o safon a thryloywder.

10. Byddwn hefyd yn rhoi sylw dyledus i'r egwyddorion canlynol ac yn sicrhau bod ein hymgynghoriadau yn:

    - **Amserol**: byddwn yn anelu at sicrhau bod ein hymgynghoriadau ar gam ffurfiannol fel y gall adborth lywio'r broses o wneud penderfyniadau;
    - **Cymesur**: byddwn yn ystyried maint y cynigion ac effaith bosibl ar randdeiliaid; ac ystyried i ba raddau y byddai ymgyngoreion yn gallu ymateb yn briodol o fewn yr amserlen ac mewn ffordd wybodus;
    - **Wedi'i dargedu**: ein nod yw sicrhau bod ein hymgynghoriadau yn agored ac yn gynhwysol ac yn annog pobl i ymateb; tra hefyd yn ystyried natur yr ymgynghoriad a'r gynulleidfa darged fel ein bod yn targedu'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio ac ymgyngoreion statudol;
    - **Effeithiol**: po fwyaf difrifol neu arwyddocaol yr effaith, y mwyaf tebygol yw hi y dylid ymgynghori ar farn a phryderon y rhai yr effeithir arnynt cyn gwneud penderfyniad; ac yn
    - **Seiliedig ar dystiolaeth**: byddwn yn ystyried yn gydwybodol ac yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd o ymgynghoriadau i lunio dyfarniadau priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau. Byddwn yn cydnabod pryderon a byddwn yn rhoi adborth ar sut y dylanwadodd mewnbwn rhanddeiliaid ar y canlyniad.

11. Bydd canlyniadau ymgynghoriadau yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y Prif Nodau a'r wyth mater yn Neddf Cymwysterau Cymru (2015), sef:

    - sicrhau bod cymwysterau, a system cymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; ac yn
    - hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system cymwysterau Cymru.

Amgylchiadau pan fyddwn yn ymgynghori

12. Bydd p'un ai ydym yn ymgynghori yn dibynnu ar natur a/neu raddfa ein cynigion ac effaith debygol ein penderfyniadau. Lle mae ein cynigion yn debygol o arwain at

newid ar raddfa fawr neu y gallent gael effeithiau andwyol, neu y gallent fod yn ddadleuol, byddwn fel arfer yn ymgynghori.

13. Yn amodol ar yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn, rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriadau yn yr amgylchiadau canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

    - newidiadau i ddulliau polisi rheoleiddio a allai effeithio ar gynlluniau busnes neu gyllid cyrff dyfarnu;
    - strategaeth reoleiddio;
    - newid sylweddol yn y broses; a
    - diwygio cymwysterau.

14. Efallai na fydd ymgynghori'n briodol ar gyfer mân ddiwygiadau i bolisi rheoleiddio, strategaeth neu ddulliau gweithredu, neu bolisi sy'n bodoli eisoes, neu lle mae ymgynghori eisoes wedi digwydd. Mewn rhai achosion, ni fydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau ymgynghoriad o gwbl.

15. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad oes amser ar gyfer ymgynghori ystyrlon ar gael, oherwydd natur y sefyllfa sydd wedi codi, yna ni fyddwn yn ymgynghori. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen i ni weithredu i amddiffyn dysgwyr a/neu hyder yn y system neu efallai y bydd ffyrdd eraill o geisio ymatebion.

Sut rydym yn bwriadu ymgynghori

16. Wrth gynllunio ymgynghoriad, byddwn yn ystyried materion fel y canlynol:

    - yr amser priodol i ymgynghori o gofio adeg y flwyddyn gan gynnwys gwyliau ac ymgynghoriadau eraill a galwadau ar ymgyngoreion tebygol;
    - amserlenni realistig i ganiatáu ar gyfer ymatebion ystyriol gan randdeiliaid ac i'n galluogi i ddadansoddi ac ystyried yr ymatebion a gawn yn gydwybodol;
    - yr angen i ddarparu digon o wybodaeth i ymgyngoreion ddarparu ymatebion ystyriol;
    - dibyniaethau eraill ac effaith gohirio gweithredu polisi; a
    - newydd-deb a chymhlethdod y cynnig.

17. Wrth gynnal ein hymgynghoriadau, byddwn yn annog pobl i gymryd rhan a rhoi adborth. Byddwn yn ystyried pa ddulliau i'w mabwysiadu i gyfleu'r ymgynghoriad yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan ystyried profiad y gynulleidfa darged a'r defnyddiwr, gan ddibynnu ar natur a graddfa'r ymgynghoriad.

18. Byddwn yn cyhoeddi ein dogfen ymgynghori yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn hwyluso ac yn annog adborth yn y ddwy iaith. Ni fydd ymatebion yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol nag ymatebion yn Saesneg.

19. Bydd ein hymgynghoriadau fel arfer hefyd yn cynnwys ffordd strwythuredig o ymateb, megis cyfres o gwestiynau, er enghraifft, ar ffurf holiadur ar-lein neu gyfweliad ynglŷn â'r cynnig neu opsiynau.

20. Bydd pob ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.

21. Wrth benderfynu ar y dulliau ymgynghori priodol, byddwn yn ystyried:

    - y dull sydd fwyaf tebygol o gasglu gwybodaeth a/neu ddata sy'n ystyrlon, yn ddilys, yn ddibynadwy ac nad yw'n destun rhagfarn;
    - diben arfaethedig yr ymgynghoriad;
    - y dulliau sydd fwyaf tebygol o ennyn ymateb, yn enwedig gan y gynulleidfa arfaethedig (gan gynnwys unrhyw randdeiliaid sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, neu grwpiau anodd eu cyrraedd);
    - effaith y materion sy'n cael eu hystyried fel y pennwyd gan unrhyw asesiadau rheoleiddiol neu asesiadau effaith eraill a gynhaliwyd;
    - yr ystod o randdeiliaid ar gyfer ymgynghori a'r ffordd orau o'u cyrraedd i gyfrannu eu barn (er enghraifft, defnyddio dulliau sy'n fwy hygyrch i bobl ifanc wrth dargedu dysgwyr); a'r
    - adnoddau sydd ar gael.

22. Fel rhan o'n hymgynghoriad, byddwn yn ceisio adborth ar effeithiau posibl ein cynigion, gan ddefnyddio'r asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ein bod yn gwahodd adborth gan unrhyw grwpiau y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt (a nodwyd drwy'r dadansoddiad effaith), gan gynnwys cyrff dyfarnu a dysgwyr.

23. Byddwn yn adolygu'r effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai'r cynnig dan sylw yn ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddwn yn gwahodd siaradwyr Cymraeg a grwpiau Cymraeg i roi adborth.

24. Byddwn hefyd yn gofyn am unrhyw effaith y byddai'r cynnig dan sylw yn ei chael ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig[1] o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a byddwn hefyd yn cynnwys ystyried yr effaith ar ddysgwyr, plant a phobl ifanc, a lles cenedlaethau'r dyfodol, sy'n gysylltiedig â'n hamcanion llesiant.

[1] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4

25. Os byddwn yn clustnodi effeithiau negyddol posibl fel rhywun sy'n cael ei amddifadu o fuddiant presennol, byddwn yn ystyried sut rydym yn ymgynghori â'r rhai a allai gael eu heffeithio'n andwyol fel eu bod yn cael y cyfle i ymateb.

Ymgyngoreion

26. Bydd ein hymgynghoriadau fel arfer yn agored i'r cyhoedd gael ymateb. Gydag ymgynghoriadau, rydym yn annog ac yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb.

27. Mae rhai ymgynghoriadau a fydd yn cael eu targedu, yn hytrach nag yn agored i'r cyhoedd. Efallai y bydd adegau pan fydd natur, maint yr effaith a'r newid yn fach neu pan fydd y cynigion ond yn effeithio ar un corff dyfarnu. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai fod yn fwy cymesur targedu o ran ein dull gweithredu ac ymgynghori â'r grwpiau yr effeithir arnynt yn unig.

28. Wrth benderfynu gyda phwy i ymgynghori, byddwn yn ceisio sicrhau bod yr ymgynghoriad yn agored i'r holl randdeiliaid sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ein cynigion - boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol. Caiff hyn ei lywio gan ein Hasesiadau Effaith Rheoleiddiol neu ddadansoddiadau rhanddeiliaid eraill.

29. Bydd ein hymgynghoriadau yn cael eu cynllunio gan ystyried anghenion ymgynghorwyr.

Cyfnodau ymgynghori

30. Dylai ymgynghoriadau ganiatáu digon o amser i ystyried ac ymateb ac felly byddant yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

31. Fel arfer, ein nod yw i gyfnodau ymgynghori fod rhwng wyth a deuddeg wythnos. Mewn achosion eithriadol iawn, gallwn benderfynu y gall cyfnod ymgynghori mor fyr â phythefnos fod yn berthnasol.

32. Wrth benderfynu ar amserlenni ymgynghori, byddwn yn cael ein harwain gan arwyddocâd y cynigion yn yr ymgynghoriad, maint y mater a natur a maint y ddogfen ymgynghori ei hun yn ogystal â'r amserlen resymol i ymgyngoreion gwblhau ymateb yn ymarferol.

33. Fel rhan o'r broses o geisio cymeradwyaeth y Bwrdd i ymgynghori, byddwn yn ceisio cymeradwyaeth ar hyd y cyfnod ymgynghori.

34. Ym mhob achos, byddwn yn sicrhau bod hyd yr ymgynghoriad yn briodol ac yn gymesur.

Ar ôl i ymgynghoriad gau

35. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a gawn yn ffurfiol fel rhan o ymgynghoriad. Nid oes rheidrwydd arnom i gael ein rhwymo gan y safbwyntiau a fynegwyd, ond byddwn yn egluro pam yr ydym yn gwneud y penderfyniadau hynny.

36. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad penderfyniadau yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad. Efallai y byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymatebion a gawsom, naill ai ar ffurf crynodeb neu yr ymatebion yn llawn, pa un bynnag a ystyrir yn briodol.

37. Bydd yr holl ddata personol a gesglir yn cael ei gadw yn unol â Deddf Diogelu Data'r DU (2018) a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan.

38. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau ymgynghoriadau ar ein gwefan.

Hygyrchedd a Chydraddoldeb

39. Byddwn yn sicrhau bod dogfen ymgynghori ac unrhyw ddeunyddiau ategol, megis holiadur, mor hygyrch â phosibl.

40. Ar gyfer ein hymarferion ymgynghori cyhoeddus mwy, byddwn fel arfer yn cynllunio dulliau cyfathrebu i annog amrywiaeth eang o ymgyngoreion i gymryd rhan.

41. Rydym yn annog adborth yn y Gymraeg ac ni fyddwn yn trin ymatebion o'r fath yn llai ffafriol na'r ymatebion yn Saesneg.